**CYPE(6)-21-23 – Papur i'w nodi 5**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

6 Gorffennaf 2023

**Myfyrwyr rhyngwladol**

Annwyl Jeremy,

Fel y gwyddoch, yn ystod ein gwaith diweddar a edrychodd ar gymorth iechyd meddwl mewn addysg uwch, fe wnaethom godi materion yn ymwneud â chymorth i fyfyrwyr rhyngwladol. Roeddem yn falch o weld yr argymhelliad hwn yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

Yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Mehefin, cododd Buffy Williams AS, sydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor, y ffaith bod gennym rai pryderon ehangach am y cymorth i fyfyrwyr rhyngwladol. Mae materion tebyg hefyd wedi dod i'r amlwg drwy eu gwaith achos aelodau eraill o'r Pwyllgor.

Yn achos rhai myfyrwyr rhyngwladol, rydym yn pryderu bod diffyg cysylltiad sylweddol rhwng yr hyn sydd efallai'n cael ei addo cyn iddynt symud i Gymru a'r hyn sydd ar gael mewn gwirionedd ar ôl iddynt gyrraedd. Yr ydym yn arbennig o bryderus ynghylch yr addewidion a wneir mewn perthynas â llety. Er ein bod yn deall bod sefydliadau addysg uwch yn sefydliadau ymreolaethol, a allwch amlinellu pa gamau, os o gwbl, y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn?

Gall y rhai sy'n dod gyda'u teuluoedd wynebu heriau ychwanegol. Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi yn ddiweddar y bydd yn cyfyngu ar y gallu i ddod â dibynyddion i'r myfyrwyr hynny sydd ar raglenni ymchwil ôl-raddedig yn unig. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod rhai myfyrwyr a'u teuluoedd ar hyn o bryd yn wynebu diymfadedd yng Nghymru, ac mae eu statws mewnfudo'n golygu nad oes ganddynt unrhyw hawl i arian cyhoeddus.

Rydym yn hynod bryderus am yr effaith y gallai'r amddifadedd hwn ei chael ar ddibynyddion y myfyrwyr, yn enwedig eu plant. Rydym yn deall bod arferion yn gallu amrywio rhwng awdurdodau lleol o ran a all y plant hyn gael mynediad at gymorth arall megis prydau ysgol am ddim. Er inni gydnabod bod Llywodraeth Cymru wrthi'n cyflwyno darpariaeth prydau ysgol am ddim cyffredinol mewn ysgolion cynradd, nid yw'r cynnig hwn eto ar gael ym mhob blwyddyn gynradd ac nid yw'n

cynnwys plant a phobl ifanc mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn yn golygu bod plant a phobl ifanc yng Nghymru heb fynediad at y cymorth mawr ei angen hwn. Mae'n bosibl na fydd gan y teuluoedd hyn unrhyw gymorth y tu allan i fanciau bwyd a chymorth gwirfoddol arall, felly gallai prydau ysgol am ddim wneud gwahaniaeth sylweddol iddynt. Beth yw eich barn ynghylch sicrhau bod gan y garfan hon o blant fynediad at brydau ysgol am ddim ar gael ledled Cymru? Pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn darparu'r cymorth hwn?

A allwch amlinellu'r camau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau bod y myfyrwyr hyn a'u teuluoedd yn gallu cael mynediad at ryw lefel o gymorth ariannol i sicrhau nad ydynt yn byw mewn llety is-safonol nac yn wynebu tlodi bwyd a thanwydd, a'u bod yn gallu manteisio'n llawn ar y cyfleoedd a ddylai fod ar gael iddynt drwy astudio yng Nghymru?

Byddwn yn ysgrifennu at bob prifysgol yng Nghymru i dynnu sylw at y materion hyn, ac yn arbennig y cymorth y gallant ei roi i fyfyrwyr rhyngwladol. Bydd copi o'r ohebiaeth hon yn cael ei anfon atoch chi.

Rydym yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol oherwydd ei chyfrifoldebau ar gyfer lliniaru tlodi plant.

Byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 14 Medi 2023.

Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Copïau at: Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol